Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd

# *Polisi Absenoldebau (Plant) Oherwydd Salwch*
# *School Absences Due to Illness (Children) Policy*

***Ysgol Y Faenol***

***Dyddiad Cymeradwyo/Date Adopted:*** *25.9.24*
***Dyddiad Adolygu/Review Date:*** *25.9.27*

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr: Rhianon Bragg**

**Dyddiad:** *25.9.24*

## 1. Cyflwyniad

Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ynghylch a chadw plant sy'n sâl neu'n heintus o'r ysgol. Mae wedi'i chymeradwyo drwy ymgynghori â Llywodraethwyr, rhieni/gofalwyr yr ysgol. Mae polisi yn cael ei rannu gyda rhieni/gofalwyr wrth iddynt gofrestru eu plant i'r ysgol, ar wefan yr ysgol ac ym mhrosbectws yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn cysylltu â rhiant/gofalwyr/oedolyn dynodedig arall os yw plentyn yn mynd yn sâl tra yn yr ysgol.

## 2. Rhieni

Dylai rhieni/gofalwyr gadw eu plentyn sy'n amlwg yn wael o'r ysgol nes y bydd yn ddigon iach i allu manteisio ar addysg a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Hefyd, dylai rhieni/gofalwyr gadw plentyn sy'n dioddef o rai clefydau heintus o'r ysgol am gyfnod priodol i gynorthwyo i gadw plant eraill rhag cael eu heintio, hyd yn oed os ydynt yn ymddangos yn iach.

## 3. Cyfnodau o Absenoldeb oherwydd Salwch

Wrth ymdrin â chyfnodau absenoldeb plant sy'n wael neu'n heintus bydd yr ysgol yn gweithredu o fewn y Cyfarwyddyd ar Reoli Heintiau mewn Ysgolion Gwynedd (Chwefror 2012) ac yn ystyried y canlynol:

- cyfrinachedd – ni fyddwn yn trafod salwch plant unigol gyda rhieni/gofalwyr eraill
- swyddogaeth nyrs yr ysgol/meddyg a'r defnydd o ystafell feddygol/ystafell cleifion yr ysgol (os yn briodol)
- hawliau'r unigolyn o safbwynt cydraddoldeb mynediad wrth ymdrin â chyfnodau absenoldeb plant sy'n wael neu'n heintus
- cyngor meddygol a'r gweithdrefnau ynglŷn â chlefydau heintus, clefydau sydd angen hysbysu a chlefydau a throsglwyddir
- gofalu am blentyn sy'n sâl tra byddir yn disgwyl i rywun ddod i'w gasglu
- y goblygiadau ar gyfer plant eraill a'r staff
- yr angen i hysbysu'r Awdurdod Addysg Lleol/Swyddog Lles Addysg a llunio cynllun addysg os yw unrhyw blentyn yn debygol o fod i ffwrdd o'r ysgol am resymau meddygol am ragor na phedair wythnos.

## 4. Gweithdrefn yr Ysgol

Bydd yr ysgol yn:

- sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch a materion yn ymwneud ag iechyd ar gael
- penodi un aelod o'r staff i gydgysylltu ymateb yr ysgol i achosion o haint
- sicrhau bod y Pennaeth yn cael gwybod yn syth os yw staff yr ysgol yn amau bod plentyn yn dioddef o glefyd heintus
- hysbysu'r Ymgynghorydd Rheoli Clefydau a Throsglwyddir 01352 803234 a dilyn y cyngor a roir os oes amheuon o achosion lluosog (dau neu ragor o achosion o glefyd heintus)
- hysbysu'r Nyrs Ysgol o'r canlyniadau
- hysbysu rhieni/gofalwyr eraill pan fydd achosion o haint a diweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd os bydd achosion lluosog wrth ystyried cyfrinachedd
- derbyn cyngor gan y Nyrs Ysgol, Meddyg neu Ymgynghorydd Rheoli Clefydau a throsglwyddir 01352 803234.
- sicrhau bod y rhieni/gofalwyr wedi cofrestru'r plant gyda meddyg teulu a'u hannog i dderbyn gwybodaeth ynglŷn â'r holl frechiadau angenrheidiol
- sicrhau bod y staff yn derbyn gwybodaeth am yr holl frechiadau angenrheidiol hefyd
- sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn gwybod bod angen iddynt hysbysu'r ysgol pan fydd eu plentyn yn dioddef o unrhyw salwch neu gyflwr meddygol
- diweddaru rhifau cyswllt mewn argyfwng a manylion meddygol plant yn rheolaidd

- gwneud trefniadau wrth gefn pan na ellir cysylltu â rhieni/gofalwyr neu pan na fedrant gasglu plentyn sy'n sâl
- cydnabod bod cyfnodau absenoldeb oherwydd salwch yn gymwys ar gyfer staff hefyd.